

# Gweithio Gyda Llawryddion Creadigol

## Canllaw arferion gorau

Adnodd CULT Cymru ar gyfer sefydliadau, contractwyr ac aelodau

**Cefnogi Llawryddion Adeiladu Gwaith Gwell**

cult cymru
bectu
EQUITY
Musicians' Union mu
WGGB THE WRITERS' UNION

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cefnogi Llawryddion Adeiladu Gwaith Gwell

## Camau syml i gefnogi llawryddion a chryfhau'r sector creadigol

Trwy ofalu am lawryddion, rydym yn diogelu eu llesiant a hefyd yn creu gwaith creadigol cryfach a mwy gwydn i bawb. Daw llawryddion creadigol â chreadigrwydd, arbenigedd a hyblygrwydd i'r holl sector creadigol, ac mae eu cefnogi nhw'n cryfhau pawb ohonom.

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n defnyddio llawryddion creadigol, o leoliadau a chynhyrchwyr i reolwyr a sefydliadau o bob maint ynghyd â llawryddion creadigol eu hunain. Mae'n nodi camau syml o ymarfer da sy'n cefnogi llesiant ar draws yr amgylcheddau creadigol, yn adlewyrchu safonau undebau, ac yn annog sgyrsiau cadarnhaol rhwng defnyddwyr, llawryddion creadigol ac undebau. Yn bennaf oll, mae'n dangos sut all newidiadau bach, ystyrlon wneud gwahaniaeth mawr i fywyd gwaith pobl.

I gael mwy o gyngor a chymorth, cysylltwch â CULT Cymru - **cultcymru@bectu.org.uk**

## Arferion Gorau ar Gyfer Gweithio Gyda Llawryddion Creadigol


| | |
|---|---|
| **1 Cyfathrebu Clir** | **3** |
| **2 Arferion recriwtio cynhwysol a theg** | **4** |
| **3 Contractau a'r broses archebu** | **6** |
| **4 Cyrraedd a gweithdrefnau ar y safle** | **8** |
| **5 Telerau a pholisïau ar gyfer mannau gwaith diogel a llawn parch** | **9** |
| **6 Cyfleusterau ac amwynderau** | **10** |
| **7 Iechyd, diogelwch a rheoli risg** | **12** |
| **8 Gwybodaeth a chefnogaeth** | **14** |
| **9 Proses ymadael a phroses adolygu** | **15** |
| **10 Arweiniad arbenigol a chymorth** | **16** |

## 1 Cyfathrebu Clir

# Mae cynnal deialog agored, parchus a phroffesiynol yn allweddol i berthynas gweithio llwyddiannus.

- Mae pennu disgwyliadau clir, cytuno ar amserlen a chael rhestr o dargedau cyfiawnadwy yn helpu i sicrhau bod yr holl bartïon wedi'u halinio ac yn gallu gweithio gyda'i gilydd
- Mae ateb cwestiynau'n brydlon a chreu cyfleoedd ar gyfer diweddariadau'n helpu i feithrin ffydd ac atal camddealltwriaeth
- Mae rhoi adborth a chydnabod cyflawniadau'n helpu i galonogi eraill ac yn cefnogi cydweithredu cadarnhaol

**Gall cyfathrebu effeithiol wella cydweithredu a chyfrannu at amgylchedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol.**



## 2 Arferion recriwtio cynhwysol a theg



# Bydd proses recriwtio clir a theg ar gyfer cyfleoedd llawrydd a chlyweliadau'n creu amgylchedd cynhwysol a theg a fydd yn eich helpu i ddenu'r dalent orau.

Mae'n bwysig cynllunio ar gyfer addasiadau rhesymol/gofynion mynediad er mwyn cefnogi llawryddion anabl o'r cychwyn, er enghraifft trwy gynnwys llinell yn y gyllideb ar gyfer addasiadau rhesymol/anghenion mynediad mewn ceisiadau am gyllid, a sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi i ddefnyddio dogfennau hygyrchedd fel rhan o'r broses archebu.

**Gallwch hefyd:**

- Defnyddio iaith blaen a chynhwysol yn eich deunyddiau recriwtio rhag ofn ichi greu rhwystrau neu eithrio unrhyw grwpiau'n ddamweiniol
- Gwirio eich geiriad i sicrhau ei fod yn hawdd ei ddeall ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol sydd ei angen ar y darpar ymgeiswyr
- Rhoi gwybodaeth am ddarpariaethau a pholisïau mynediad yn eich deunyddiau recriwtio ac annog yr ymgeiswyr i gysylltu gyda'u hanghenion mynediad
- Hysbysebu swyddi gwag ar blatfformau amrywiol a chynhwysol er mwyn cyrraedd ystod eang o ymgeiswyr posibl



**Pan fyddwch wedi recriwtio rhywun, mae'n bwysig ichi feithrin gweithle cynhwysol.**

**Gallwch wneud hynny trwy:**

- Cydnabod ffyrdd gwahanol o weithio a chyfathrebu a gwneud lle iddynt: efallai y bydd angen rhoi gwybodaeth i rai mewn ffordd benodol, fel caniatáu amser ychwanegol i brosesu gwybodaeth, mynediad i leoedd tawel neu wiriadau rheolaidd wedi'u trefnu ymlaen llaw

- Deall bod arddulliau cymdeithasol yn amrywio: efallai na fydd rhai'n mwynhau mân siarad neu weithio mewn grŵp mawr, ond mae eu gwaith yn wych

- Bod yn ystyrlon o amser pobl: parchwch amserlenni llawryddion a gwnewch yn siŵr bod amserlenni a disgwyliadau'n glir a theg

**Trwy fabwysiadu'r arferion cynhwysol hyn, byddwch yn creu amgylchedd lle mae llawryddion yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi a'u cefnogi, a bod ganddynt gyfle cyfartal i lwyddo.**

# 3 Contractau a'r broses archebu

## Mae prosesau archebu syml a thryloyw yn helpu i bennu disgwyliadau ac yn sicrhau amodau gweithio teg a phroffesiynol i bawb sy'n cymryd rhan.

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfathrebu clir, agored a pharchus ar bob cam
- Cydnabyddiaeth ariannol deg sy'n cynnwys tâl yn unol â safonau undebau a threuliau rhesymol fel teithio a deunyddiau
- Parchu a gweithredu cydgytundebau lle maent yn bodoli
- Contractau ysgrifenedig sy'n nodi'n glir cwmpas y gwaith, dyddiadau pwysig, sut a phryd caiff pobl eu talu, a phwy sy'n berchen ar unrhyw eiddo deallusol cysylltiedig ac eglurder o ran sut y rhoddir credyd am y gwaith

**Mae undebau llafur yn y sector creadigol yn darparu canllawiau ar arferion gorau a chytundebau, ac isafbrisiau / cyfraddau er mwyn helpu sicrhau y caiff pawb eu trin yn deg.**



*“Mae arnom angen gweithleoedd i weithwyr creadigol sy’n deg ac yn ymarferol, gan sicrhau bod pob unigolyn yn teimlo’n werthfawr ac yn cael ei glywed.”*

**Pete Bayliss.** Cyfansoddwr, Dylunydd Sain a Chynhyrchydd.

Cynrychiolydd Dysgu Undeb a Mentor i Undeb y Cerddorion drwy CULT Cymru.

# 4 Cyrraedd a gweithdrefnau ar y safle

## Mae proses gyrraedd wedi'i threfnu'n dda'n helpu i osgoi straen ac yn gosod sylfaen ar gyfer profiad proffesiynol a chynhyrchiol.

### Cyn iddynt ddechrau ar y gwaith:

- Rhowch iddynt gyfarwyddiadau clir ar sut i gyrraedd y lleoliad neu weithle, gan gynnwys oriau agor a chanllawiau clir am y mannau parcio a llwytho/dadlwytho
- Rhowch wybod iddynt ba offer a chyfleusterau sydd ar gael iddynt, fel mynediad i'r we, ystafelloedd i staff, ystafelloedd gwyrdd, toiledau hygyrch a chyfleusterau newid
- Penodwch berson cyswllt sy'n gallu ateb cwestiynau cyffredinol neu bryderon, a'i friffio

### Ar y diwrnod cyntaf:

- Cyflwynwch nhw i'r person cyswllt penodedig
- Rhowch iddynt unrhyw godau mynediad neu gardiau sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu swydd, gan gynnwys mynediad i'w le gweithio, ystafelloedd staff, ystafelloedd gwyrdd, ystafelloedd newid a chyfleusterau fel toiledau
- Rhowch wybodaeth iddynt am gynrychiolwyr undeb, swyddogion cymorth cyntaf, a swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, ac unrhyw bolisïau a sianelau yn y gweithle ar gyfer adrodd am achosion o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu

# Mae’n hollbwysig rhannu polisïau clir gyda llawryddion o’r cychwyn er mwyn meithrin amgylchedd diogel a llawn parch.

**Dylai fod gan bob gweithle:**

→ Polisi aflonyddu rhywiol

→ Cod ymarfer y diwydiant a/neu bolisi bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu

→ Cod ymarfer cyffredinol sy’n nodi disgwyliadau o ran ymddygiad, gan bwysleisio pwysigrwydd ymddwyn yn dda, cyd-barchu ac ymddwyn yn broffesiynol



**Mae’n bwysig:**


- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy bolisïau clir sy’n cefnogi cynrychiolaeth a thegwch i bawb
- Lle mae llawryddion yn wynebu risg o gael eu bwlio, aflonyddu neu wahaniaethu yn eu herbyn, sicrhau bod ganddynt fynediad i’r prosesau perthnasol
- Parchu a rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb a dogfennau mynediad llawryddion
- Sicrhau bod y gweithle’n hygyrch ac yn ymateb i anghenion grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ( e.e. pobl anabl, gofalwyr, rhai o gefndiroedd y mwyafrif byd-eang )
- Sicrhau bod holl bolisïau’r gweithle ar gael yn hawdd
- Cynnig sianelau priodol ar gyfer adrodd ar anawsterau ac ymdrin â phryderon yn brydlon ac yn deg
- Blaenoriaethu GDPR a diogelwch digidol trwy ddefnyddio platfformau diogel i rannu ffeiliau sensitif a gwybodaeth bersonol, gan ddiogelu preifatrwydd a diogelwch pawb sy’n cymryd rhan

# 6 Cyfleusterau ac amwynderau





**Mae amgylchedd gweithio diogel sydd wedi'i gynnal yn dda ac sydd â'r offer gofynnol yn hollbwysig i'r broses o gefnogi llawryddion.**



**Mae hyn yn cynnwys:**


- Sicrhau bod offer hanfodol ar gael, fel cyflenwad trydan dibynadwy a WiFi
- Darparu toiledau glân a hygyrch
- Sicrhau bod cyfleusterau allweddol, fel mynediad i fwyd a diod sy'n briodol i'r diwrnod gwaith, lle i orffwys a bwyta prydau o fwyd, storfa ddiogel ar gyfer eiddo personol a mannau newid preifat, ar gael lle bo angen
- Mae rhoi cyfeiriadau at gitiau cymorth cyntaf a chysylltiadau i'w defnyddio mewn argyfwng yn helpu i sicrhau gweithle diogel ac ymatebol
- Sicrhau bod arwyddion a gwybodaeth yn hygyrch i bawb trwy ddefnyddio iaith blaen, cyferbyniad gweledol clir, a fformatau sy'n cefnogi anghenion gwahanol

# 7 Iechyd, diogelwch a rheoli risg

## Gall llawryddion wynebu ystod o risgiau corfforol, meddyliol ac emosiynol yn y gwaith. Mae'n hollbwysig eich bod yn cynnal asesiad risg trylwyr sy'n diwallu anghenion penodol pob prosiect, gig neu gynhyrchiad.

**Mae hwn yn cynnwys:**

- Mae rhoi cyfrif am y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar eich pen eich hun a gweithio yn ystod y nos, fel cerdded yn ôl i geir neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn hwyr y nos/ yn yr oriau mân, yn helpu i amddiffyn diogelwch a diogeledd
- Asesiadau risg safonol, ynghyd ag asesiadau risg iechyd meddwl a straen er mwyn helpu i adnabod heriau posibl a'u rheoli



Mae darparu hyfforddiant diogelwch perthnasol a/neu ganllawiau iechyd a diogelwch clir yn helpu i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r risgiau posibl ac yn gwybod sut i'w rheoli'n effeithiol.


**Ystyried mesurau fel:**

- Parcio ar y safle'n ddi-dâl
- Cynnig eu hebrwng i drafnidiaeth leol (gan 2 aelod o staff) pe dymunir hynny
- Sicrhau bod manylion cwmni tacsis dibynadwy ar gael
- Talu am deithio llawryddion, sydd wedi'i nodi'n glir yn eu contract

**Dylai fod gan bob gweithle swyddogion Cymorth Cyntaf a swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl fel rhan o'r criw neu dîm i roi cymorth mewn argyfwng lle bo'n briodol. Sicrhewch fod pawb yn gwybod pwy ydynt a sut i gysylltu â hwy pe byddai pryder yn codi, er mwyn helpu i sicrhau amgylchedd mwy diogel a chefnogol i bawb.**



# 8 Gwybodaeth a chefnogaeth



## Mae'n hollbwysig rhoi i weithwyr llawrydd wybodaeth ac adnoddau hygyrch sy'n cefnogi eu llesiant a'u hawliau.

→ Rhoi gwybodaeth a dangos posteri am undebau a sefydliadau'r diwydiant

→ Cyfarwyddiadau clir at sianelau ar gyfer adrodd am aflonyddu neu wahaniaethu

→ Rhannu adnoddau ar gyfer iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant er mwyn sicrhau bod gan yr holl weithwyr fynediad i'r cymorth sydd arnynt ei angen


**Lle y bo'n bosibl:**

- Penodi Hyrwyddwyr/Cydgysylltwyr Llesiant i gynnig cymorth ar y safle neu o bell i weithwyr llawrydd, gan sicrhau mynediad i gymorth arbenigol lle bo angen
- Darparu mynediad i byrth digidol sy'n cynnwys adnoddau iechyd meddwl cyfredol, rhwydweithiau cymorth a chanllawiau ar gyfer cynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith

**Mae cynnig adnoddau corfforol a digidol yn helpu i greu amgylchedd gweithio mwy cynhwysol a chefnogol i bawb.**

## 9 Proses ymadael a phroses adolygu

**Mae dangos eich bod yn parchu amser a chyfraniad llawryddion yn helpu i gryfhau eich perthynas gweithio ac yn gosod sylfaen ar gyfer cydweithredu eto yn y dyfodol.**



- → Talwch lawryddion yn brydlon ac yn unol â'r telerau a nodwyd yn y contract ac yn y cydgytundeb perthnasol
- → Gofynnwch i'r llawryddion am adborth ar eu profiad
- → Cynigiwch fathau eraill o gydnabyddiaeth, fel cymeradwyaeth, tystlythyr neu eirda

**Mae hyn yn meithrin hyder, yn dangos gwerthfawrogiad o'u gwaith ac yn gwella enwau proffesiynol y ddau ohonoch.**

# 10 Arweiniad arbenigol a chymorth

10

## Mae arferion da yn gydymdrech a rennir.

Os oes angen arnoch gyngor neu ganllawiau, gall y sefydliadau ac undebau hyn a ymddiriedir ynddynt roi ichi'r cymorth sydd ei angen arnoch. I gael gwybodaeth am gynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch unrhyw undeb, dylech gysylltu â'r undeb berthnasol yn uniongyrchol.

### CULT Cymru

Cefnogi gweithwyr creadigol ledled Cymru i gyrraedd eu potensial.

→ **Cult.Cymru/Cy** ✉ **cultcymru@bectu.org.uk**

### CULT Cymru Hyfforddiant a Llesiant

Datblygu sgiliau, hyder a llesiant gweithlu creadigol Cymru.

→ **Cult.Cymru/Cy/Upcoming-Training**

### Undeb y Cerddorion

Undeb llafur i gerddorion sy'n cynnig cefnogaeth a chynrychiolaeth ddiwydiannol.

→ **theMU.org**

### Equity

Yr undeb i berfformwyr ac ymarferwyr creadigol Cymreig.

→ **Equity.org.uk/Contact-Us**

### Undeb yr Ysgrifenwyr

Yr undeb llafur i ysgrifenwyr teledu, ffilm, theatr, sain, llyfrau, cerddi, comedi, animeiddiadau a gemau fideo.

→ **WritersGuild.org.uk/Contact-Us**

### Bectu

Undeb llafur i'r rhai sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni yn y cyfryngau a'r diwydiannau adloniant.

→ **BECTU.org.uk/Contact-Us**

### CIISA - Awdurdod Annibynnol Safonau'r Diwydiannau Creadigol

Gwella safonau ymddygiad ar draws y diwydiannau creadigol.

→ **ciisa.org.uk**

## Un peth olaf...



Gall ymwybyddiaeth helpu pawb ohonom i wneud penderfyniadau mwy cadarnhaol am y ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd, gan greu amgylchedd cefnogol a llawn parch i bawb sy'n rhan ohono. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn greu gweithleoedd creadigol sy'n fwy iach, mwy teg a mwy cynaliadwy.

Mae cefnogi llawryddion yn cryfhau pawb ohonom, ac mae pob cam bach tuag at arferion gwell yn helpu i feithrin gwaith creadigol cryfach, mwy cynaliadwy a mwy gwydn i'r dyfodol.

# Gall pob newid bach, ystyrlon ddod at ei gilydd i greu gwelliannau trawsnewidiol mewn bywydau gwaith.

Rhaglen ddysgu gyd-undebol yw CULT Cymru a ariennir trwy Gronfa Ddysgu Undebau Cymru Llywodraeth Cymru, a Chymru Greadigol. Rydym yn cynnig ystod o weithgareddau hyfforddiant a dysgu ar gyfer gweithlu, cyflogwyr a chyrff diwydiannol creadigol Cymru, ochr yn ochr â rhaglenni pwrpasol fel lleoliadau Hwyluswyr Llesiant a hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

**I gael gwybodaeth am hyfforddiant penodol neu gyngor, neu i rannu sylwadau am y ddogfen hon, cysylltwch â: cultcymru@bectu.org.uk a byddwn yn hapus i roi cyngor ichi neu eich cyfeirio at gymorth.**